SFJGK508

# Cefnogi goroeswyr yn ystod proses y llys

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â darparu cefnogaeth i unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol yn ystod proses y llys. Mae'n cynnwys sicrhau bod unigolion yn deall y gweithdrefnau a'u rolau o fewn y rhain a'u bod yn deall y deilliannau sy'n codi.

Gall adroddiadau am gam-drin domestig neu drais rhywiol ymwneud â digwyddiadau diweddar neu ddigwyddiadau hanesyddol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael gwybodaeth berthnasol am unigolion, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
2. cadarnhau bod unigolion yn deall prosesau a gweithdrefnau'r llys yn berthnasol i'w hachos, a'u rôl o fewn y rhain
3. nodi agweddau ar risg a breguster sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn achos llys gan unigolion, yn unol â phrosesau asesu risg
4. archwilio gydag unigolion p'un a oes angen unrhyw gymorth arnynt yn unol â chylch gwaith eich sefydliad ar gyfer gwasanaethau.
5. cytuno ag unigolion ar y cymorth y mae ei angen arnynt, a'r camau perthnasol i'w cymryd, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
6. darparu cyngor am fynediad diogel i'r llys ac oddi yno, ac o fewn adeilad y llys i unigolion, yn unol â'r arweiniad sydd ar gael
7. eiriol ar ran unigolion, lle bo hynny'n berthnasol, ac yn unol â'ch cyfrifoldebau
8. rhannu amgylchiadau a risgiau cysylltiedig unigolion gyda phobl berthnasol eraill yn unol â gofynion y sefydliad
9. archwilio gydag unigolion eu dealltwriaeth o'r achos a'r rhesymau dros y camau sy'n cael eu cymryd, yn unol â gofynion y sefydliad
10. esbonio deilliannau'r achos i unigolion, yn unol â gofynion y sefydliad
11. archwilio gydag unigolion eu hanghenion a'u risgiau sy'n deillio o ddeilliannau'r achos, yn unol â phrosesau eich sefydliad
12. mynd i'r afael ag anghenion a risgiau a nodwyd ar gyfer unigolion yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad, gan gynnwys atgyfeirio i wasanaethau cymorth eraill
13. defnyddio arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a'u haddasu i anghenion yr unigolyn
14. archwilio pryderon sydd gan unigolion ynghylch y broses o gael at amddiffyniad cyfreithiol, yn unol ag arferion a dulliau sefydliadol
15. nodi gwrthdaro buddiannau posibl wrth gynorthwyo unigolion, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad, gan gynnwys:
16. 15.1 hysbysu pobl eraill pan fydd gwrthdaro buddiannau'n codi sydd y tu hwnt i'ch rôl, eich cyfrifoldebau a'ch galluoedd proffesiynol
17. cynnal cofnodion cywir a chyfredol o'ch trafodaethau a'u deilliannau yn unol â pholisïau a gweithdrefn eich sefydliad
18. cynnal cyfrinachedd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy’n berthnasol i’ch rôl chi ac i rôl pobl eraill yn eich sefydliad
2. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a’ch cymhwysedd proffesiynol
3. rôl eich sefydliad a’i wasanaethau yn gysylltiedig â mynd i’r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol, gan gynnwys darparu cymorth i unigolion
4. camau prosesau cyfiawnder i ganiatáu i unigolion wneud dewisiadau gwybodus a rheoli eu disgwyliadau, a phwysigrwydd gwneud hynny
5. pwy i’w hysbysu pan na allwch gefnogi unigolion o fewn eich rôl a’ch awdurdod
6. pwy y dylid ceisio cyngor oddi wrthynt pan fydd angen cymorth arnoch yn eich rôl
7. beth yw cam-drin domestig a thrais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn y gymuned
8. pwysigrwydd ôl-drafod gyda phobl eraill
9. sut i fod yn sensitif ac yn hyblyg eich ffordd, gan ddefnyddio amrywiol dechnegau sy’n briodol i ymddygiad ac agwedd unigolion
10. rôl ac effaith croestoriadedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig a thrais rhywiol
11. gwahanol fathau o lysoedd, a’u prosesau a’u gweithdrefnau priodol, o fewn eich awdurdodaeth
12. paratoadau cyn achos llys a rôl unigolion o fewn y rhain
13. rolau a chyfrifoldebau swyddogion y llys o fewn eich awdurdodaeth
14. effaith bwrw ymlaen ag achos llys i unigolion, a sut y gallwch esbonio hyn i unigolion
15. y camau i’w cymryd pan fydd gennych bryderon am addasrwydd unigolion i roi tystiolaeth
16. sut i gynnal diogelwch a lles unigolion
17. yr amgylchiadau sy’n gofyn am drefnu mesurau arbennig, gan gynnwys eu manteision a’u hanfanteision
18. sut i fynd i’r afael ag amharodrwydd unigolion i roi tystiolaeth neu eu hofn gwneud hynny
19. pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda’r ystod o asiantaethau a gwasanaethau
20. y gwahaniaethau rhwng cynorthwyo unigolion i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y

llys a hyfforddi, a goblygiadau hyn

21. goblygiadau cydgynllwynio gweithgar, hyfforddi a chysylltiad amhriodol gydag unigolion a rhwng unigolion yn ystod achos llys, a sut i adnabod ac osgoi hyn
22. effaith cyhuddiadau o hyfforddi a chydgynllwynio gweithgar gydag unigolion
23. pwysigrwydd cadw cofnodion cywir, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
24. y goblygiadau allweddol i'ch rôl wrth weithio gydag unigolion sydd â chyflawnydd cyffredin
25. pwysigrwydd meithrin ffydd ac empathi gydag unigolion, a dulliau o wneud
26. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a sut i'w haddasu i fodloni anghenion yr unigolyn
27. sut mae gwahanol ddiwylliannau yn defnyddio ac yn dehongli iaith y corff
28. rhwystrau cyffredin rhag cyfathrebu a ffyrdd o'u goresgyn
29. yr effaith y gall eich gwerthoedd a'ch credoau ei chael wrth weithio gydag unigolion
30. sut i herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol neu a allai fod yn niweidiol, a phwysigrwydd gwneud hynny
31. yr amgylchiadau pan fydd angen mynd yn groes i ddymuniadau datganedig unigolion
32. pwysigrwydd sicrhau bod unigolion yn deall pam nad yw eu dymuniadau datganedig yn cael eu bodloni

## Geirfa

**Cam-drin Domestig**
Patrwm o ymddygiad rheolaethol, ymddygiad gorfodaethol, ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd, neu a fu, yn bartneriaid clos neu'n aelodau teulu, ni waeth beth yw eu rhywedd neu eu rhywioldeb. Gall y cam-drin gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gyfuniad o gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol.

Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys trais ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir, anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod. Mae plant hefyd yn cael profiad o gam-drin domestig pan fyddant yn dyst i gam-drin domestig.

**Croestoriadedd**
Natur gysylltiedig categoreiddiadau cymdeithasol fel hil, dosbarth a rhywedd, yr ystyrir eu bod yn creu systemau gwahaniaethu neu anfantais sy'n gorgyffwrdd ac sy'n gyd-ddibynnol

**Dull dan arweiniad anghenion**
Math o eiriolaeth sy'n gosod y goroeswr yn ganolog i ymyriadau a gwaith cymorth. Mae hyn yn golygu gwrando ar eu hanes, eu pryderon a'u hanawsterau, a nodi cryfderau. Mae'n arwain at gynhyrchu pecynnau cymorth yn gydgynhyrchiol, sy'n benodol i anghenion unigol goroeswyr. Mae dull dan arweiniad anghenion yn ymdrech ymrymusol sy'n talu sylw i amgylchiadau croestoriadol goroeswyr, gan osgoi maglau rhagfarn sefydliadol neu ymatebion aneffeithiol.

**Dull seiliedig ar gryfderau**
Cydnabod bod gan unigolion gryfderau. Cydnabyddir y cryfderau hyn ac adeiladir arnynt fel rhan o gynorthwyo ag adfer.

**Pobl mewn perygl**
Unigolyn y diffinnir bod arno angen gofal, cymorth neu amddiffyniad arbennig oherwydd oedran, anabledd, risg cam-drin neu esgeulustod

**Trais Rhywiol (gweler hefyd ddiffiniadau isod y gellir eu defnyddio sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol neu ymosodiad rhywiol)**
Yn debyg o ran ei natur i gam-drin rhywiol, ond defnyddir y term hwn yn fwy aml i ddisgrifio digwyddiadau byr neu unigol, megis ymosodiad rhywiol gan ddieithryn.

**Cam-drin Rhywiol**

Ymddygiad rhywiol digroeso gan un person tuag at berson arall. Mae hwn yn aml yn cael ei gyflawni trwy rym neu trwy gymryd mantais ar y person arall. Defnyddir y term hwn yn gyffredinol pan fydd yr ymddygiad rhywiol yn rheolaidd neu'n digwydd dros gyfnod estynedig.

**Ymosodiad Rhywiol**
Unrhyw ymddygiad rhywiol digroeso nad yw person wedi cydsynio iddo. Gall hyn amrywio o drais i voyeuriaeth i orchestu, i gyffwrdd digroeso dros neu o dan ddillad.

**Ymarfer Ystyriol o Drawma**
Ymagwedd at ymyriadau iechyd a gofal sydd â'i sail mewn deall bod amlygiad i drawma'n gallu effeithio ar unigolyn. Bydd ymarferwyr yn gweithio mewn ffyrdd nad ydynt yn ail-achosi trawma yn anfwriadol i'r unigolyn, ac mae pwyslais ar ddiogelwch, dewis, cydweithrediad a grymuso'r cleient.

SFJGK508

Cefnogi goroeswyr yn ystod proses y llys

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 26 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ GK508 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Lloches, Gweithiwr Argyfwng, Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig (IDVA) |
| **Cyfres/Set** | Atal a mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | unigolyn; dioddefwr; goroeswr; rhywiol; darpariaeth; ymchwilio; gwybodaeth; cymuned |